national dance company wales | cwmni dawns cenedlaethol cymru

# SURGE / GWEFR

## Programme / Rhaglen



@ndcwales ndcwales.co.uk

Welcome to

# SURGE

a captivating programme of dance designed to show the versatility of the company, and its ability to offer audiences diverse perspectives on the world.

This tour brings together three dynamic and enthralling dance works that showcase the full power and versatility of National Dance Company Wales. From futuristic sci-fi to ancient mythology, each piece offers a fresh perspective from leading choreographic voices and creative collaborators, unlocking the power of dance to create unforgettable experiences for audiences.

From our home at the Dance House in Cardiff Bay, we create and commission innovative work with world-class artists, collaborating with the best of Welsh talent and international voices alike. This programme is testament to that. These are bold, beautiful dances that invite you to see the world differently, performed by some of the most distinctive and expressive dancers in the UK. Our dancers' individuality shines in every performance and tonight you will see their artistry and physicality at its most exhilarating.

We are proud to be one of the few national arts organisations in Wales, reaching thousands each year not only through performances like tonight's, but also through digital projects, creative collaborations, and partnerships across Wales and beyond. Our participation programmes are powerful, impactful, and life-changing, from nurturing young aspiring artists to supporting people living with Parkinson's. We are a vital force for dance in Wales and beyond, and we believe its power to move, connect and transform has never been more needed.

Thank you for joining us for 'Surge', wherever you may be on our tour. We hope it transports you to new worlds and leaves you inspired to see us again, support our work, take part, and share your love of dance with friends and family.

**Tonight's Programme Y Rhaglen ar gyfer Heno**

**Infinity Duet**
by | gan Faye Tan & Cecile Johnson Soliz
(10 minutes | munud)

Pause | Saib

Croeso i

# GWEFR

rhaglen hudolus o ddawns a ddyluniwyd i ddangos doniau amryddawn y cwmni, a'i allu i gynnig safbwyntiau amrywiol ar y byd i gynulleidfaoedd.

Daw'r daith hon â thair dawns ddynamig a gafaelgar at ei gilydd, sy'n arddangos holl bŵer a doniau amryddawn Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru. O ffuglen wyddonol ddyfodolaidd i chwedloniaeth hynafol, mae bob darn yn cynnig safbwynt newydd gan leisiau coreograffig a chydweithredwyr creadigol blaenllaw, gan ddatgloi pŵer dawns i greu profiadau bythgofiadwy i gynulleidfaoedd.

O'n cartref yn y Tŷ Dawns ym Mae Caerdydd, rydym yn creu ac yn comisiynu gwaith arloesol gydag artistiaid o safon fyd-eang, gan gydweithredu â'r gorau o blith doniau Cymru a lleisiau rhyngwladol fel ei gilydd. Mae'r rhaglen hon yn tystio i hynny. Mae'r rhain yn ddawnsiau beiddgar, hardd sy'n eich gwahodd i weld y byd yn wahanol, ac yn cael eu perfformio gan rai o'r dawnswyr mwyaf trawiadol a llawn mynegiant yn y DU. Mae unigoliaeth ein dawnswyr yn disgleirio ym mhob perfformiad a, heno, cewch weld eu celfyddyd a'u presenoldeb corfforol ar ei lefel fwyaf gwefreiddiol.


Rydym yn falch o fod yn un o'r ychydig sefydliadau celfyddydol cenedlaethol yng Nghymru sy'n cyrraedd miloedd o bobl bob blwyddyn, nid yn unig drwy berfformiadau fel yr un sydd gennym heno, ond hefyd drwy brosiectau digidol, gwaith creadigol cydweithredol, a phartneriaethau ledled Cymru a thu hwnt. Mae ein rhaglenni cyfranogi yn bwerus, yn ddylanwadol, ac yn newid bywydau, o feithrin darpar artistiaid ifanc, i gefnogi pobl sy'n byw gyda chlefyd Parkinson's. Rydym yn rym hanfodol o ran dawns yng Nghymru a thu hwnt, a chredwn na fu erioed gymaint o angen am ei bŵer i wefreiddio, cysylltu a thrawsnewid.

Diolch am ymuno â ni ar gyfer 'Gwefr', ymhle bynnag y byddwch chi ar ein taith. Gobeithiwn y bydd yn eich trawsgludo i fydoedd newydd ac yn eich ysbrydoli i fod eisiau ein gweld eto, a chefnogi a chymryd rhan yn ein gwaith, ynghyd â rhannu eich cariad at ddawns gyda ffrindiau ac aelodau teulu.

**Waltz**
by | gan
Marcos Morau
(30 minutes | munud)

Interval | Egwyl
(20 minutes)

**Mabon**
by | gan
Osian Meilir
(26 minutes | munud)



# Infinity Duet

**Length | Hyd:** 10 minutes | munud
**Choreographer | Coreograffydd:** Faye Tan
**Artist | Yr Artist:** Cecile Johnson Soliz
**Composer | Cyfansoddwr:** Richard McReynolds

A cross-artform collaboration in which dance, sculpture and sound hold equal space on stage.

*“The sculpture can’t help but yield to gravity, and neither can their bodies.”*

Two people deal with weight and time in this warm, soulful duet that weaves together drawing, sculpture, dance and sound in a unique collaboration.

Choreographer Faye Tan and artist Cecile Johnson Soliz created this work together with the dancers and composer Richard McReynolds. The costumes are printed with Cecile’s drawings, and her large swinging sculpture takes centre stage in this work which sweeps you along with it.

**Costume Designer | Dylunydd Gwisgoedd:** Cecile Johnson Soliz
**Lighting Designer | Cynllynydd Goleuo:** Will Lewis
**Costume Maker | Gwneuthurwr Gwisgoedd:** Elizabeth Catherine Chiu
**Dancers And Co-Choreographers | Dawnswyr A Chyd-Goreograffwyr:** Charlotte Aspin, Alys Davies, Olivia Foskett, Sarah ‘Riz’ Golden, Jill Goh, Ed Myhill
**With Thanks To | Gyda Diolch i:** Luca Chiodini, Dan Clark, Elena Grace, Sam Gilovitz, Niamh Keeling, Mario Manara, Matthew William Robinson, Ds Smith, Will Barrett Soliz, Rachel Verner

Mae Infinity Duet yn gydweithrediad ar draws ffurfiau celfyddydol, lle rhoddir lle cyfartal i ddawns, cerfluniau a sain ar y llwyfan.

*"Ni all y cerfluniau osgoi ildio i ddisgyrchiant, na'u cyrff chwaith."*

Mae dau berson yn mynd i'r afael â phwysau ac amser yn y ddeuawd deimladwy a chynnes hon sy'n plethu ynghyd dyluniad, cerfluniad, dawns a sain mewn cydweithrediad unigryw.

Creodd y coreograffydd Faye Tan a'r artist Cecile Johnson Soliz y gwaith hwn ynghyd â'r dawnswyr. Gyda cherddoriaeth gan Richard McReynolds. Mae'r gwisgoedd wedi'u printio â darluniau Cecile a cherflun mawr siglog sy'n hawlio'r sylw, ac mae'r gwaith hwn yn eich swyno.



## Making Infinity Duet

Cardiff based artist Cecile Johnson Soliz and choreographer Faye Tan met in 2022 during an NDCWales project that paired visual artists with dancers. In working together Faye and Cecile found many commonalities and shared interests.

*"Sculpture has so many similarities to dance, and one of the things we've been interested in are time, space and movement, all of those things come into sculpture and it's one of the reasons I wanted to work with Faye on this collaboration"*

said Cecile

The swinging sculpture is made of unused newsprint paper. Cecile then paints, twists and sculpts the paper into stunning works of art. The costumes in Infinity Duet are also printed with Cecile's detailed, geometric drawings.

The music by Richard McReynolds features snippets recorded from Cecile's art studio where the sculptures were made – sounds of ripping, tearing and scrunching paper can be heard throughout the soundtrack.

Both the movement and sculpture weave together, soft and hard elements, and Faye and Cecile were inspired to create the poetic from the functional: Newsprint paper becomes a swinging sculpture, and natural movements become dance.

## Creu Infinity Duet

Cyfarfu'r artist o Gaerdydd, Cecile Johnson Soliz, a'r coreograffydd, Faye Tan, yn 2022, yn ystod prosiect a gynhaliwyd gan CDCCymru a oedd yn anelu at baru artistiaid gweledol gyda dawnswyr. Wrth weithio gyda'i gilydd, mae Faye a Cecile wedi dod o hyd i dir cyffredin mewn sawl modd, yn ogystal â diddordebau cyffredin.

*"Mae cerflunio yn debyg iawn i ddawns mewn sawl ffordd. Mae gennym ddiddordeb mewn amser, lle a symud – mae'r pethau hyn i gyd yn berthnasol i gerflunio, a dyna un rheswm pam roeddwn i eisiau gweithio gyda Faye ar y prosiect cydweithredol hwn"*


medd Cecile.

Mae'r cerflun sy'n siglo wedi'i wneud o bapur a ddefnyddir i argraffu papurau newydd nad oedd modd ei ddefnyddio yn y broses argraffu. Yna, mae Cecile yn paentio, yn cordeddu ac yn cerflunio'r papur i greu gweithiau celf trawiadol. Mae'r gwisgoedd yn Infinity Duet wedi'u hargraffu hefyd gyda lluniadau geometrig, symudol Cecile.

Mae'r gerddoriaeth, gan Richard McReynolds, yn cynnwys pytiau a recordiwyd yn stiwdio gelf Cecile lle crëwyd y cerfluniau – gellir clywed synau papur yn cael ei dorri, ei rwygo a'i wasgu drwy gydol y trac sain.

Mae'r symudiadau a'r cerflun yn ymblethu elfennau meddal a chaled â'i gilydd, ac fe'u hysbrydolwyd i greu rhywbeth barddonol o rywbeth swyddogaethol: daw papur argraffu papurau newydd yn gerflun sy'n siglo, ac mae symudiadau naturiol yn dod yn ddawns.







*"What I love about Cecile's work is that it deals quite explicitly with weight and time and tension, and the potential for something to happen, even though the sculpture itself might be still in that moment"*

Faye Tan

*"Yr hyn rydw i'n gwirioni arno yng ngwaith Cecile yw'r ffaith ei fod yn delio'n eithaf penodol â phwysau ac amser a thensiwn, a'r potensial i rywbeth ddigwydd, er bod y cerflun ei hun yn llonydd yn yr ennyd hwnnw"*

Faye Tan

# Waltz

**Choreographer | Coreograffydd:** Marcos Morau

## A dystopian exploration of chaos, order and control.

## Archwiliad dystopaidd o anhrefn, trefn a rheolaeth.



**Music | Cerddoriaeth:**
**Mixed by Marcos Morau and Including**
**| Wedi'i chymysgu gan Marcos Morau, ac yn cynnwys:**
Valse Triste, Op 44. Berlin Philharmonic: Jean Sibelius
Suspirium: Thom Yorke
Crawler: Holly Herndon
Pneuma: Caterina Barbieri
**Costume Designer | Dylunydd Gwisgoedd:** Marcos Morau
**Costume Supervisor and Costume Maker | Goruchwyliwr Gwisgoedd a Gwneuthurwr Gwisgoedd:**
Elizabeth Catherine Chiu
**Costume Maker | Gwneuthurwr Gwisgoedd:** Danial Thatcher
**Lighting Programmer | Rhaglennydd Goleuo:** Will Lewis

In the distance, a feint and haunting waltz plays. From the ashes a tangle of shining creatures emerge to inhabit a new world. In the confusion and turbulence their only hope is to remain united.

*"Music has always been a great source of inspiration. Waltzes have always evoked in me a character of partying, of power, historical context, reasons for celebration, elevation, protocol, ritual, conventions...*
*I have placed the waltz in various contexts, put the waltz in crisis, to such an extent that the waltz has stopped playing, they have left remains, ashes from another time, ashes tinged with the luxury of the halls where the waltz began to be heard."*

Marcos Morau

Mae waltz atgofus yn chwarae yn y pellter. Allan o'r lludw daw cwlwm o greaduriaid gloyw i fyw mewn byd newydd. Yn y dryswch a'r cynnwrf eu hunig obaith yw parhau'n unedig.

*"Mae cerddoriaeth wedi bod yn ffynhonnell wych o ysbrydoliaeth erioed. Mae waltsiau bob amser wedi ysgogi ynof gymeriad o bartïo, o bŵer, cyd-destun hanesyddol, rhesymau dros ddathliad, goruchafiad, protocol, defod, confensiynau...*
*Rwyf wedi lleoli'r walts mewn amrywiol gyd-destunau, wedi rhoi'r walts mewn argyfwng, i'r fath raddau nes bod y walts wedi rhoi'r gorau i chwarae, maent wedi gadael gweddillion, lludw o oes arall, lludw ag arlliw o foethusrwydd y neuaddau lle dechreuodd y walts gael ei chlywed."*

Marcos Morau



# Mabon

**Choreography and Concept | Coreograffi a Chysyniad:** Osian Meilir

## Tradition twists with wild imagination in this modern myth.

Mabon is inspired by a quest to meet some of the oldest animals in the world from a story in The Mabinogion – an ancient and famous collection of Welsh myths and legends.

## Mae traddodiad yn cael ei ystumio gan ddychymyg gwyllt yn y chwedl fodern hon.

Mae Mabon wedi'i ysbrydoli gan ymgais i gwrdd â rhai o'r anifeiliaid hynaf yn y byd o chwedl y Mabinogion - casgliad o fythau a chwedlau hynafol o Gymru.



**Costume Designer | Dylunio Gwisgoedd:** Becky Davies
**Lighting Designer | Dylunio Goleuadau:** Marty Langthorne
**Composer | Cyfansoddwr:** Cerys Hafana

**Mentor:** Marc Rees
**Design Assistant, Principal Costume Maker | Cynorthwyydd Dylunio a Phrif Wneuthurwr Gwisgoedd:** Amy Barrett
**Costume Making Assistants | Cynorthwywyr Gwneud Gwisgoedd:** Katie Unwin, Nikita Verboon, Becky Davies
**Principal Mask Making Team | Prif Dîm Gwneud Masgiau:** Rachel Merritt, Angharad Gamble, Becky Davies
**Principal Prop Making Team | Prif Dîm Gwneud Propiau:** Rachel Merritt, Becky Davies
**Additional Mask Making Assistants | Cynorthwywyr Gwneud Masgiau Ychwanegol:** Elliott Ditton, Bethany Seddon, Ruby Aston, Ellie Rogers
**With Thanks to | Diolch i:** Work experience students | Profiad Gwaith: Royal Welsh College of Music and Drama, Harvey Evans, Lucie Powell, Sophie Dwyer, Eilir Gwyn, Gerhard Kress, Re-Create Scrapstore, Cardiff Indoor Flea Market

### Meet the Oldest Animals

The Blackbird of Cilgwri
The Stag of Rhedynfre
The Owl of Cwm Cowlyd
The Eagle of Gwern Abwy
The Salmon of Llyn Llyw
The Toad of Cors Fochno

### Cwrdd â'r Anifeiliaid Hynaf

Mwyalchen Cilgwri
Carw Rhedynfre
Tylluan Cwm Cowlyd
Eryr Gwern Abwy
Eog Llyn Llyw
Llyffant Cors Fochno

*"I hope people will feel enchanted by this Welsh folklore and find an eagerness to know more about our rich culture, stories and language. I've truly been taken by these six ancient characters and realising the story alongside such visionary artists has been magical."*

Osian Meilir

*"Rwy'n gobeithio y bydd pobl yn cael eu swyno gan y lên-gwerin hon o Gymru, ac yn awyddus i wybod mwy am ein diwylliant, straeon ac iaith gyfoethog. Rwyf wedi cael fy nghyfareddu gan y chwe chymeriad hynafol hyn, ac mae deall y stori ochr yn ochr ag artistiaid mor weledigaethol wedi bod yn hudolus."*

Osian Meilir



## Finding Mabon

Mabon is inspired by the Mabinogion – Wales' earliest collection of stories.

Steeped in myth and magic Mabon draws its roots from 'Culhwch and Olwen' – an Arthurian romance that sees Culhwch alongside King Arthur's knights undertake a series of impossible tasks including a quest to free Mabon ap Modron – a divine being. To locate Mabon's prison the lovers must seek knowledge from the world's oldest animals including the Blackbird, Stag, Owl, Eagle, Salmon and Toad – who we reincarnate here on stage tonight.

The music for Mabon was created by Cerys Hafana. Cerys is a Welsh triple harpist and composer who mangles, mutates and transforms traditional music. Their work was selected as one of The Guardian's 'Top Ten Folk Albums of 2022'. In creating the music for Mabon, Cerys incorporated lyrics in Cymraeg Canol (Middle Welsh spoken between 12-15th Century) drawn from original texts of the Mabinogion.

## Darganfod Mabon

Mae Mabon wedi'i ysbrydoli gan y Mabinogion – sef casgliad cynharaf Cymru o storïau.

Yn llawn chwedlau a hudoliaeth, mae Mabon yn deillio o chwedl 'Culhwch ac Olwen' – stori ramant Arthuraidd sy'n gweld Culhwch, ochr yn ochr â marchogion y Brenin Arthur yn ymgymryd â chyfres o dasgau amhosibl, gan gynnwys ymgais i ryddhau Mabon ap Modron – sef bod dwyfol. I ddod o hyd i garchar Mabon, mae'n rhaid i'r cariadon geisio gwybodaeth anifeiliaid hynaf y byd, sy'n cynnwys Mwyalchen, Carw, Tylluan, Eryr, Eog a Llyffant – y byddwn yn eu hailymgnawdoli yma ar y llwyfan heno.

Cerys Hafana sydd wedi creu'r gerddoriaeth ar gyfer Mabon. Mae Cerys yn delynor Teires a chyfansoddwr sy'n manglo, yn treiglo ac yn trawsnewid cerddoriaeth draddodiadol. Dewiswyd ei gwaith fel un o 'Top Ten Folk Albums of 2022' gan 'The Guardian'. Wrth greu'r gerddoriaeth ar gyfer Mabon, ymgorfforodd Cerys eiriau Cymraeg Canol (a siaradwyd o'r 12fed i'r 15fed Ganrif) a oedd yn deillio o ysgrifau gwreiddiol y Mabinogion.











*Original Costume Design sketches for Mabon by Becky Davies*

Costume is integral to how this work looks, feels and moves – and was important for shaping the world of Mabon alongside the lighting and music. Designer Becky Davies drew inspiration from Wales' folklore and ecology. The costumes directly reference historical clothing and motifs, as well as its language, landscape, astronomy and wildlife. The costumes are made from natural and re-purposed materials.

*Brasluniau Dyluniad Gwisgoedd Gwreiddiol ar gyfer Mabon gan Becky Davies*

Mae gwisgoedd yn rhan annatod o olwg y gwaith hwn, ynghyd â sut y mae'n teimlo ac yn symud – ac roeddynt yn bwysig ar gyfer llunio byd Mabon, ochr yn ochr â'r goleuadau a'r gerddoriaeth. Ar gyfer Mabon, cafodd Becky Davies ei hysbrydoli gan lên gwerin ac ecoleg Cymru. Mae'r syniadau ar gyfer y gwisgoedd yn deillio'n uniongyrchol o'i dillad a'i motiffau hanesyddol, yn ogystal â'i hiaith, ei thirwedd, ei seryddiaeth a'i bywyd gwyllt. Gwnaed y gwisgoedd o ddeunyddiau naturiol a rhai sydd wedi'u haddasu at ddibenion y cynhyrchiad.

# Meet the artists | Cwrdd â'r artistiaid



## Faye Tan

faye-tan.com
@fayefayefaye.tan

Faye is a dancer and choreographer from Singapore and is currently a full-time dancer with National Dance Company Wales. Her choreographic practice is nourished by her extensive experiences of working with contemporary dance choreographers from all over the world and her explorations of different dance styles, cultures, methods and techniques. Her works often embrace the sometimes-overwhelming complexities of human emotion, and are often odes to human experiences of the sublime.

Frequently collaborating with musicians and visual artists, she has created works for various settings and contexts with NDCWales, VERVE (UK), Frontier Danceland (Singapore), the Centre for Advanced Training (UK) and School of The Arts Singapore.

Mae Faye yn ddawnswraig a choreograffydd o Singapôr ac ar hyn o bryd yn ddawnswraig llawn amser gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru. Meithrinwyd ei hymarfer coreograffig gan ei phrofiadau helaeth o weithio gyda choreograffwyr dawns gyfoes o bob rhan o'r byd a'i defnydd o wahanol arddulliau o ddawns, diwylliannau, dulliau a thechnegau. Mae ei gwaith yn aml yn cynnwys cymhlethdod yr emosiwn dynol sydd weithiau'n llethol, ac yn aml yn awdlau i brofiadau dynol o'r dyrchafedig.

Yn aml yn cydweithio gyda cherddorion ac artistiaid gweledol, mae hi wedi creu gwaith ar gyfer amrywiaeth o osodiadau a chyd-destunau gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, VERVE (DU), Frontier Danceland (Singapôr), y Ganolfan Hyfforddiant Uwch (DU) ac Ysgol Gelfyddydau Singapôr.



## Cecile Johnson Soliz

cecilejohnsonsoliz.net
@cecilejohnsonsoliz

Cecile Johnson Soliz  is a second generation American of Bolivian heritage who grew up in California, Mexico, Bolivia, Brazil, Ghana and Italy before arriving to the UK to study fine art at Cardiff College of Art and Goldsmiths. Following 20 years in London, the Henry Moore Fellowship in Sculpture brought her to Cardiff in 1995 where she lives and works. Cecile has exhibited across 35 years in the U.K. and abroad in both solo and group exhibitions, winning the Gold Medal in Fine Art at the National Eisteddfod, Wales in 2017. She is currently collaborating with the National Dance Company of Wales.

Mae Cecile Johnson Soliz yn Americanes ail genhedlaeth o dreftadaeth Bolifaidd a fagwyd yng Nghaliffornia, Mecsico, Bolifia, Brasil, Ghana, a'r Eidal cyn cyrraedd y D.U. i astudio Celfyddyd Gain yng Ngholeg Celfyddyd ac Eurych Caerdydd. Yn dilyn 20 mlynedd yn Llundain, bu i Gymrodoriaeth Henry Moore mewn Cerfluniaeth ddod â hi i Gaerdydd yn 1995 ble mae hi'n byw a gweithio. Mae Cecile wedi arddangos dros gyfnod o 35 mlynedd yn y D.U. a thramor mewn arddangosfeydd unigol a grŵp, gan ennill y Wobr Aur mewn Celfyddyd Gain yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 2017. Ar hyn o bryd mae hi'n cydweithio gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru.



## Marcos Morau

laveronal.com
@marcosmoraukoshska

Trained between Valencia, Barcelona and New York in photography, movement and theatre, Marcos Morau builds imaginary worlds and landscapes.

Named Knight of the Order of Arts and Letters in 2023 by the French Ministry of Culture and selected as best choreographer of the year 2023 by the prestigious German magazine Tanz, Marcos Morau continues to grow artistically with an extraordinary career as a choreographer and stage director. Since 2004 he has directed La Veronal, which has become one of the most prominent dance companies on the European scene, and in 2013 received the National Dance Prize awarded by the Spanish Ministry of Culture.

Ac yntau wedi'i hyfforddi rhwng Valencia, Barcelona ac Efrog Newydd mewn ffotograffiaeth, symud a theatr, mae Marcos Morau'n adeiladu bydoedd a thirweddau dychmygol.

Cafodd ei enwi'n Farchog Urdd y Celfyddydau a Llythrennau ('Knight of the Order of Arts and Letters') yn 2023 gan Weinyddiaeth Celfyddydau Ffrainc, a'i ddewis fel coreograffydd gorau'r flwyddyn yn 2023 gan y cylchgrawn Almaenaidd nodedig Tanz. Mae Marcos Morau'n dal i ddatblygu o safbwynt artistig, a chanddo yrfa arbennig iawn fel coreograffydd a chyfarwyddwr llwyfan. Ers 2004, mae o wedi cyfarwyddo La Veronal, sydd wedi dod yn un o'r cwmnïau dawns amlycaf ym myd dawns yn Ewrop, ac yn 2013, derbyniodd y Wobr Ddawns Genedlaethol gan Weinyddiaeth Diwylliant Sbaen.



## Osian Meilir

Osianmeilir.com
@osianmeilir

Originally from Pentre'r Bryn Osian Meilir is a choreographer and movement artist who performs and creates work for a variety of performances spaces.

Their work has toured across Wales, the UK and internationally including Australia, France, Japan and the Balearic Islands.

Over the past five years Meilir created work for Articulture Wales, The National Eisteddfod, Green Man Festival, Scherzo Ensemble, Cwmni Frân Wen and National Theatre Wales.

Meilir's up-bringing in rural West Wales, experience in folk dance and their fascination with notions of identity, culture and community feeds their creativity and inspires their work.

Yn wreiddiol o Bentre'r Bryn, coreograffydd ac artist symudiad yw Osian Meilir, ac yn creu a pherfformio gwaith ar gyfer amryw o fannau perfformio.

Mae ei waith wedi teithio ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol gan gynnwys Awstralia, Ffrainc, Japan a'r Ynysoedd Balearig.

Dros y pum mlynedd diwethaf, comisiynwyd Meilir i greu gwaith newydd gan Articulture Wales, yr Eisteddfod Genedlaethol, Gŵyl y Dyn Gwyrdd, Scherzo Ensemble, Cwmni'r Frân Wen and National Theatre Wales.

Bu i fagwraeth Meilir yng nghefn gwlad Gorllewin Cymru, ei brofiad cynnar iawn o'r ddawns werin Gymreig a'r ymdeimlad o hunaniaeth, diwylliant a chymuned fwydo ei greadigrwydd gan ysbrydoli ei waith.

# Meet the dancers | Cwrdd â‘r Dawnswyr



## Alys Davies

Originally from South Wales, Alys graduated from Tring Park School in 2016 before moving to Italy to train at Art Factory International. In 2022, she was awarded First-Class Honours in Professional Practice within the Arts and Creative Industries from Middlesex University.

Alys has danced with Compagnia Zappalà Danza, Jones the Dance/Y Ddawns, EQ Dance CO, Dylan Quinn Dance Theatre, Anna Watkins, Matt Walker, and Taira Foo, among others.

Alys first worked with NDCWales in 2022 and joined full time in 2024. Whilst at NDCWales, Alys has performed works by Matthew William Robinson, Melanie Lane, Faye Tan, and John-William Watson.

Yn wreiddiol o Dde Cymru, graddiodd Alys o Tring Park School yn 2016 cyn symud i'r Eidal i hyfforddi yn Art Factory International. Yn 2022, enillodd Radd Dosbarth Cyntaf mewn Ymarfer Proffesiynol o fewn y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol o Brifysgol Middlesex.

Bu Alys yn dawnsio gyda Compagnia Zappalà Danza, Jones the Dance/Y Ddawns, EQ Dance CO, Dylan Quinn Dance Theatre, Anna Watkins, Matt Walker, a Taira Foo, ymhlith eraill. Daeth Alys i weithio gyda CDCCymru gyntaf yn 2022 ac ymunodd â'r cwmni'n llawn amser yn 2024. Yn ystod ei hamser gyda CDCCymru, mae Alys wedi perfformio gweithiau gan Matthew William Robinson, Melanie Lane, Faye Tan, a John-William Watson.



## Ed Myhill

Originally from London, Ed grew up in Leeds and trained at Hammond School in Chester before graduating from Rambert School.

Ed joined NDCWales as an apprentice in 2015 and has been with the company since, in which time he has toured worldwide, performing works by Alexander Ekman, Roy Assaf, Caroline Finn, Johan Inger, Fernando Melo and Marcos Morau amongst others.

Ed is also an accomplished choreographer and composer. Ed's critically acclaimed choreographic work has been performed throughout the UK and Europe. As a composer Ed's music has featured in dance performances and films from noted choreographers Matthew William Robinson and Mathew Prichard.

Yn wreiddiol o Lundain, cafodd Ed ei fagu yn Leeds, a hyfforddodd yn Hammond School yng Nghaer cyn graddio o Rambert School.

Ymunodd Ed â CDCCymru fel prentis yn 2015, ac mae o wedi dawnsio gyda'r cwmni ers hynny. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae o wedi bod ar daith ledled y byd, yn perfformio gweithiau gan Alexander Ekman, Roy Assaf, Caroline Finn, Johan Inger, Fernando Melo a Marcos Morau, ymhlith eraill.

Mae Ed hefyd yn goreograffydd medrus ac yn gyfansoddwr. Mae gwaith coreograffig Ed, sydd wedi ennyn cryn ganmoliaeth, wedi cael ei berfformio ar hyd a lled y DU ac Ewrop. Fel cyfansoddwr, mae Ed wedi cyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer perfformiadau a ffilmiau dawns, gan goreograffwyr nodedig fel Matthew William Robinson a Mathew Prichard.



## Faye Tan

Hailing from Singapore, Faye trained at the Singapore Ballet Academy, School of The Arts Singapore, Rambert School and Northern School of Contemporary Dance.

Faye danced with Frontier Danceland for three years before joining NDCWales in 2019. Faye has performed work by Shahar Binyamini, Marcos Morau, Alexandra Waierstall, Caroline Finn, Andrea Costanzo Martini, Anton Lachky, Nigel Charnock and Richard Chappell and others.

Faye is an accomplished choreographer, and you can see her work in tonight's programme. Faye has also created dance for School of The Arts Singapore, Frontier Danceland, NDCWales, VERVE, Rambert School and the Centre for Advanced Training as well as for film festivals across the world.

Mae'n dod o Singapore, a chafodd Faye ei hyfforddi yn y Singapore Ballet Academy, School of The Arts Singapore, Rambert School a'r Northern School of Contemporary Dance.

Bu Faye yn dawnsio gyda Frontier Danceland am dair blynedd, cyn ymuno â CDCCymru yn 2019. Mae Faye wedi perfformio gwaith gan Shahar Binyamini, Marcos Morau, Alexandra Waierstall, Caroline Finn, Andrea Costanzo Martini, Anton Lachky, Nigel Charnock a Richard Chappell ac eraill.

Mae Faye yn goreograffydd medrus, a gallwch weld ei gwaith yn y rhaglen heno.

Mae Faye hefyd wedi creu dawnsiau ar gyfer y School of The Arts Singapore, Frontier Danceland, CDCCymru, VERVE, Rambert School a'r Centre for Advanced Training, yn ogystal ag ar gyfer gwyliau ffilm ledled y byd.



## Jason Yip

Originally from Hong Kong, Jason trained at London Contemporary Dance School before joining VERVE, the postgraduate performance company at the Northern School of Contemporary Dance where he toured internationally.

Jason has worked with KOR'SIA and the Korean National Contemporary Dance Company, where he collaborated closely with artistic director Sung Yong Kim on the creations INIT and INIT-unseen.

As a choreographer, Jason is supported by Swindon Dance through their Young Professional Programme, and his work has been performed at Swindon Dance and East London Dance in collaboration with Company Jinx. He was also a commissioned artist at the Digital Body Festival.

Yn wreiddiol o Hong Kong, hyfforddodd Jason yn y London Contemporary Dance School cyn ymuno â VERVE, sef y cwmni perfformio ôl-raddedig yn y Northern Schoo of Contemporary Dance, lle cafodd y cyfle i deithio'n rhyngwladol.

Bu Jason yn gweithio gyda KOR'SIA a'r Korean National Contemporary Dance Company, lle cydweithiodd yn agos â'r cyfarwyddwr artistig Sung Yong Kim ar greadigaethau INIT ac INIT-unseen.

Fel coreograffydd, mae Jason yn cael cefnogaeth gan Swindon Dance drwy eu Rhaglen Broffesiynol Ieuenctid, ac mae ei waith wedi cael ei berfformio yn Swindon Dance ac East London Dance, mewn cydweithrediad â Company Jinx. Roedd o hefyd yn artist a gomisiynwyd yn y Digital Body Festival.



## Jill Goh

Jill studied at the School of The Arts (SOTA) in Singapore before pursuing full-time vocational training at the New Zealand School of Dance in Wellington, where she performed works by Amber Haines, Sarah Foster-Sproull, Michael Parmenter and Hofesh Shechter.

Upon graduating Jill worked with Humanhood Company on 2018 and in 2020 joined Shechter II, touring 'Political Mother: Unplugged' around Europe. Jill has also worked with Royal Danish Theatre and Hofesh Shechter Company.

Jill joined NDCWales in 2023 and has performed work by Marcos Morau, SAY Dance, Matthew William Robinson and others, touring across the UK and Europe.

Astudiodd Jill yn y School of The Arts Singapore cyn mynd ar hyfforddiant galwedigaethol llawn amser yn y New Zealand School of Dance yn Wellington, lle arbenigodd mewn dawns gyfoes.

Ar ôl graddio, bu'n gweithio gyda'r Humanhood Dance Company am ddwy flynedd, cyn ymuno â Shechter II. Fe aeth ymlaen wedyn i weithio gyda'r Hofesh Shechter Company ar sawl prosiect, fel dawnswraig lawrydd.

Ymunodd Jill â Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn 2023 ac, ers hynny, bu'n perfformio mewn gweithiau gan Melanie Lane, Boram Kim, Marcos Morau, Lea Anderson, and Matthew William Robinson, ymhlith eraill.



## Pietro Mazzotta

Originally from Italy, Pietro moved to Leeds in 2019 to train at Northern School of Contemporary Dance. During his studies, Pietro worked with Akram Khan, Alessandra Suetin, Thick & Tight, Mathieu Geffré and Phoenix Dance Theatre.

He then joined VERVE, the postgraduate company of Northern School of Contemporary Dance, and toured internationally works by KOR'SIA and Jamaal Burkmar. Upon graduation Pietro worked with Skånes Dansteater, ResExtensa, Karma Dance, Boram Kim, Richard Pye and Devika Rao.

Pietro first worked with NDCWales in 2023, and joined the company again in 2025 for the Surge | Gwefr tour.

Yn wreiddiol o'r Eidal, symudodd Pietro i Leeds yn 2019 i hyfforddi yn y Northern School of Contemporary Dance. Yn ystod ei astudiaethau, bu Pietro'n gweithio gyda Akram Khan, Alessandra Suetin, Thick & Tight, Mathieu Geffré a'r Phoenix Dance Theatre.

Ymunodd â VERVE wedyn, sef cwmni ôl- raddedig y Northern School of Contemporary Dance, a theithiodd yn rhyngwladol gan berfformio gweithiau gan KOR'SIA a Jamaal Burkmar. Ar ôl graddio, bu Pietro'n gweithio gyda Skånes Dansteater, ResExtensa, Karma Dance, Boram Kim, Richard Pye a Devika Rao.

Cafodd Pietro weithio gyda CDCCymru am y tro cyntaf yn 2023, ac ymunodd â'r cwmni unwaith eto yn 2025 ar gyfer taith Surge | Gwefr.



## Sarah 'Riz' Golden

Originally from Bristol, Riz danced with the National Youth Dance Company before formally training at London Contemporary Dance School and Conservatoire National Supérieur de Musique et de Danse de Paris (Erasmus). She then completed her masters at Northern School of Contemporary Dance.

She has performed and toured work by Marcos Morau, Theatr Cymru, Lea Anderson, Osian Meilir, Faye Tan, Richard Chappell, Night People and others.

They have worked across dance, film and fashion and are part of Sadler's Wells Young Persons' Committee. Riz joined National Dance Company Wales as an apprentice in 2023 and has been with the company since.

Yn wreiddiol o Fryste, bu Riz yn dawnsio gyda'r National Youth Dance Company cyn hyfforddi'n ffurfiol yn y London Contemporary Dance School a'r Conservatoire National Supérieur de Musique et de Danse de Paris (Erasmus). Cwblhaodd ei gradd meistr wedyn yn y Northern School of Contemporary Dance.

Bu ar daith ac yn perfformio gwaith gan Marcos Morau, Theatr Cymru, Lea Anderson, Osian Meilir, Faye Tan, Richard Chappell, Night People ac eraill.

Mae hi wedi gweithio ar draws y sector dawns, ffilmiau a ffasiwn, ac yn rhan o Bwyllgor Pobl Ifanc Sadler's Wells. Ymunodd Riz â Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru fel prentis yn 2023, a bu'n rhan o'r cwmni ers hynny.




## Isabella Knight

Professional Placement Student / Myfyriwr Lleoliad Gwaith Proffesiynol

Isabella grew up in the South of England dancing at various places but mainly Danceworks Ballet academy in London.

Isabella trained at Northern School of Contemporary Dance where she worked with choreographers such as Ben Duke, Amaury Lebrun and Imogen Reeve.

Isabella is currently undertaking her MA in Contemporary Dance Performance at Northern School of Contemporary Dance, and is a Professional Placement Student with National Dance Company Wales.

Cafodd Isabella ei magu yn ne Lloegr, gan ddawnsio mewn amryw o leoedd, ond yn bennaf yn y Danceworks Ballet Academy yn Llundain.

Hyfforddodd Isabella yn y Northern School of Contemporary Dance lle bu'n gweithio gyda choreograffwyr fel Ben Duke, Amaury Lebrun ac Imogen Reeve.

Mae Isabella wrthi ar hyn o bryd yn astudio ei MA mewn Perfformio Dawns Gyfoes yn y Northern School of Contemporary Dance, ac mae'n Fyfyriwr Lleoliad Gwaith Proffesiynol gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru.



## Maisie Gregory

Professional Placement Student / Myfyriwr Lleoliad Gwaith Proffesiynol

Maisie's training in contemporary dance started in 2018 at Dance4, Nottinghamshire.

Maisie then trained at Northern School of Contemporary Dance, where she worked with Ben Duke, Fabio Liberte, Excessive Human Collective, Bakani Pick-Up and Jamaal Burkmar amongst others.

Maisie is also currently undertaking her MA in Contemporary Dance Performance at Northern School of Contemporary Dance, and is a Professional Placement Student with National Dance Company Wales.

Dechreuodd hyfforddiant Maisie mewn dawns gyfoes yn 2018 yn Dance4, yn Swydd Nottingham.

Wedyn, cafodd Maisie hyfforddiant yn y Northern School of Contemporary Dance, lle bu'n gweithio gyda Ben Duke, Fabio Liberte, Excessive Human Collective, Bakani Pick-Up a Jamaal Burkmar, ymhlith eraill.

Hefyd, mae Maisie wrthi ar hyn o bryd yn astudio ei MA mewn Perfformio Dawns Gyfoes yn y Northern School of Contemporary Dance, ac mae'n Fyfyriwr Lleoliad Gwaith Proffesiynol gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru.



## Victoria Roberts

Rehearsal Director / Cyfarwyddwr Ymarfer

As a dancer, Victoria has worked with Scottish Dance Theatre, Cullbergbaletten, Gothenburg Opera, Andersson Dance, Alexander Whitley Dance Company, and Helena Franzen in work created by Mats Ek, Alexander Ekman, Johan Inger, Crystal Pite, Jefta Van Dinther, Hofesh Shechter, Rui Horta, Liv Lorent, and Janet Smith amongst others.

Victoria has also taught ballet and modern classes and creative workshops in many institutions, from primary schools to degree courses, and for professional dance companies throughout the UK and Europe.

As a choreographer, Victoria has made work for The Ballet Academy Stockholm, SommarDans Gavleborg, Norrdans, and Scottish Dance Theatre. Before joining NDCWales, Victoria also worked as a rehearsal director for Norrdans and Alexander Whitley Dance Company.

Fel dawnswraig, bu Victoria'n gweithio gyda'r Scottish Dance Theatre, Cullbergbaletten, Gothenburg Opera, Andersson Dance, Alexander Whitley Dance Company, a Helena Franzen mewn gwaith a grëwyd gan Mats Ek, Alexander Ekman, Johan Inger, Crystal Pite, Jefta Van Dinther, Hofesh Shechter, Rui Horta, Liv Lorent, a Janet Smith, ymhlith eraill.

Bu Victoria hefyd yn dysgu bale a dosbarthiadau modern ac yn cyflwyno gweithdai creadigol mewn sawl sefydliad, o ysgolion cynradd i gyrsiau gradd, ac ar gyfer cwmnïau dawns proffesiynol ledled y DU ac Ewrop.

Fel coreograffydd, mae Victoria wedi gwneud gwaith ar gyfer The Ballet Academy Stockholm, SommarDans Gavleborg, Norrdans, a'r Scottish Dance Theatre. Cyn ymuno â CDCCymru, bu Victoria'n gweithio hefyd fel cyfarwyddwr ymarfer ar gyfer y Norrdans and Alexander Whitley Dance Company.



# NDCWales Team | Tîm CDCCymru

**Artistic Director (Joint CEO) | Cyfarwyddwr Artistig (Prif Weithredwr ar y Cyd):** Bakani Pick-Up
**Interim Executive Director (Joint CEO) | Cyfarwyddwr Gweithredol (Prif Weithredwr ar y Cyd) Dros Dro:** David Watson
**General Manager | Rheolwr Cyffredinol:** Chris Ricketts
**Head of Production | Pennaeth Cynhyrchu:** Geraint Chinnock
**Company Manager | Rheolwr Cwmni:** Karen Thomas
**Development and Governance Officer | Swyddog Datblygu a Llywodraethiant** Madeleine Jones
**Marketing Manager | Rheolwr Marchnata:** Megan Pritchard
**Engagement Artsit | Artist Ymgysllltu:** Siân Rowlands

## Touring Technical Team | Tîm Technegol Teithol

**Stage Manager | Rheolwr Llwyfan:** Harvey Evans
**Lighting Technician | Technegydd Goleuadau:** Will Lewis
**Sound Technician | Technegydd Sain:** James Tomlinson
**Haulage by | Cludiant gan:** Telgwen

## Above & Beyond Team | Tîm Tu Hwnt I'r Gofyn

**Lead Artist and Co-Producer | Artist Arweiniol a Chyd-gynhyrchydd:** Sandra Harnish-Lacey
**Lead Artist and Co-Producer | Artist Arweiniol a Chyd-gynhyrchydd:** Kyle Stead
**Project Manager | Rheolwr Prosiect:** Rosalind Robinson

## Tîm Dance for Parkinson's Team

**Cardiff | Caerdydd**
**Associate Dance Artist | Artist Dawns Cyswllt:** Yvette Wilson
**Associate Musician | Cerddor Cyswllt:** Helen Woods
**Bangor**
**Associate Dance Artist | Artist Dawns Cyswllt:** Angharad Harrop
**Associate Musician | Cerddor Cyswllt:** Helen Wyn Pari

We are proud to present that SURGE has been created with 96% recycled and reused materials, reaching intermediate level in the Theatre Green Book.

Rydym yn falch i gyflwyno bod GWEFR wedi'i greu gyda 96% o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a'u hailddefnyddio, gan gyrraedd lefel Canolradd yn y Llyfr Gwyrdd y Theatr.

# Bakani Pick-Up

This September we welcome our new Artistic Director Bakani Pick-Up.

Bakani Pick-Up is a Zimbabwean born Choreographer, Researcher and Programmer who founded Bakani Pick-Up Company in 2018. Bakani also freelances as a Performer and Teacher, expanding their expertise in pedagogy, creative well-being, leadership, governance, and interdisciplinary arts. Some of their recent work has been presented at The Place, London; Vienna Secession, Austria; and on BBC Four. Bakani is also currently an Associate Trustee at Yorkshire Dance, Trustee at Chisenhale Dance Space and has previously served on a number of artistic advisory boards for dance organisations across the UK. Bakani also took part in 'Laboratori' NDCWales' research and development programme in 2021.

**"I look forward to working with the whole Company to ensure we continue to celebrate the work of artists in Wales, while also striving to bring artists from around the globe into our world here in Wales.**

**I want to connect with the many diverse communities across Wales. I believe dance is for everyone and the work we will do as a company in the years to come will echo this belief."**

Bakani Pick-Up

# Bakani Pick-Up

Fis Medi eleni, croesawn ein Cyfarwyddwr Artistig newydd, Bakani Pick-Up.

Mae Bakani Pick-Up, sy'n enedigol o Zimbabwe fel Coreograffydd, Ymchwilydd a Rhaglennydd a sefydlodd Bakani Pick-Up Company yn 2018. Yn ogystal, mae Bakani yn gweithio'n llawrydd fel Perfformiwr ac Athro, gan ehangu ei arbenigedd mewn addysgeg, llesiant creadigol, arweinyddiaeth, llywodraethiant a'r celfyddydau rhyngddisgyblaethol. Cyflwynwyd peth o'i waith diweddar yn The Place, Llundain; Vienna Secession, Awstria; ac ar BBC Four. Ar hyn o bryd, mae Bakani hefyd yn Ymddiriedolwr Cyswllt yn Yorkshire Dance, ac yn Ymddiriedolwr yn Chisenhale Dance Space ac arferai wasanaethu ar sawl bwrdd cynghor artistig ar gyfer cwmnïau dawns ar draws y DU. Bu Bakani hefyd yn cymryd rhan yn ';Laboratori', rhaglen ymchwil a datblygu CDCCymru, yn 2021.

**"Rwy'n edrych ymlaen at gael gweithio gyda'r Cwmni cyfan i sicrhau ein bod yn parhau i ddathlu gwaith artistiaid yng Nghymru, wrth wneud ein gorau ar yr un pryd i ddod ag artistiaid o bedwar ban byd i'n byd ni yma yng Nghymru.**

**Rwy'n awyddus i gysylltu â'r cymunedau amrywiol niferus ar draws Cymru. Credaf fod dawns ar gyfer pawb a bydd y gwaith y byddwn yn ei gyflawni fel cwmni mewn blynyddoedd i ddod yn atseinio'r gred hon."**

Bakani Pick-Up



## Who are NDCWales

You know already that National Dance Company Wales brings incredible dance to theatres just like this one – but who are NDCWales?

**Dance Made in Wales, shared with the world.**

## Pwy yw CDCCymru

Rydych eisoes yn gwybod bod Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru’n dod â byd o ddawns anhygoel i theatrau yn union fel yr un hwn – ond pwy yw CDCCymru?

**Dawns a Wnaed yng Nghymru, yn cael ei rhannu â’r byd.**



## In 2024/25 we:

- Made connections with over 9000 people in classes, workshops and talks.
- Worked with 27 new artists.
- Engaged 95 freelance collaborators.
- Created 7 new dance works.
- Shared space at the Dance House with 62 other organisations.
- Performed our first Welsh Language show for schools and families in collaboration with Theatr Cymru.
- Worked with the Welsh Curriculum to produce a series of films to help teachers learn how to incorporate dance into their lessons.
- Performed 53 times in Wales – and more in the UK and beyond.

## Yn 2024/25:

- Gwnaed cysylltiadau â dros 9000 o bobl mewn dosbarthiadau, gweithdai a sgyrsiau.
- Cawsom weithio gyda 27 o artistiaid newydd.
- Ymgysylltwyd â 95 o gydweithredwyr llawrydd.
- Crëwyd 7 o weithiau dawns newydd gennym.
- Rhannwyd lle yn y Tŷ Dawns â 62 o sefydliadau eraill.
- Perfformiwyd ein sioe Gymraeg gyntaf i ysgolion a theuluoedd, mewn cydweithrediad â Theatr Cymru.
- Gweithiwyd â Chwricwlwm Cymru i gynhyrchu cyfres o ffilmiau i helpu athrawon i ddysgu sut i ymgorffori dawns yn eu gwersi.



We create unforgettable dance experiences from our home at the Dance House in Cardiff Bay. We make and tour work across Wales, the UK and the world – sharing the creative spirit of Wales with audiences everywhere, in 2023 we celebrated our 40th anniversary.

Our team work full time creating, making, teaching and rehearsing dance – but what else?

- We support Welsh artists and tour their work world-wide.
- We bring some of the most exciting choreographers working across the world today to Wales.
- We share our passion for dance and its benefits anywhere we can: performing, teaching and talking to schools, communities, theatres and beyond.
- We train the next generation of contemporary dancers in Wales through our Young Associates programme.
- We facilitate life-changing dance initiatives such as Dance for Parkinson's, and our Above & Beyond programme in Penrhys, which has embedded arts into the local community over the last five years.
- We collaborate with other companies and other artforms – sharing dance in new spaces and to new audiences.
- We share resources, knowledge and space with other artists, other sectors and businesses.
- We advocate for dance as an artform wherever we go.

Rydym yn creu profiadau dawns bythgofiadwy o'n cartref yn y Tŷ Dawns ym Mae Caerdydd. Rydym yn creu gwaith ac yn teithio ledled Cymru, y DU a'r byd – gan rannu ysbryd creadigol Cymru â chynulleidfaoedd ym mhobman, ac yn 2023 cawsom ddathlu ein penblwydd yn 40.

Mae ein tîm yn gweithio'n llawn amser, yn creu, yn dysgu ac yn ymarfer dawnsiau – ond beth arall ydym yn ei wneud?

- Rydym yn cefnogi artistiaid Cymreig ac yn cyflwyno eu gwaith ar deithiau ledled y byd.
- Rydym yn denu rhai o'r coreograffwyr mwyaf cyffrous, sy'n gweithio ar hyd a lled y byd heddiw, i Gymru.
- Rydym yn rhannu ein brwdfrydedd am ddawnsio, a manteision hynny, ym mhle bynnag y gallwn: drwy berfformio, dysgu, a siarad ag ysgolion, cymunedau, theatrau a thu hwnt.
- Rydym yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o ddawnswyr cyfoes yng Nghymru drwy ein rhaglen Aelodau Cyswllt Ifanc.
- Rydym yn hwyluso mentrau dawns sy'n newid bywydau, fel ein rhaglen Dawns ar gyfer Parkinson's, a'n rhaglen Tu Hwnt i'r Gofyn ym Mhenrhys, sydd wedi gwneud y celfyddydau'n rhan annatod o'r gymuned leol dros y pum mlynedd diwethaf.
- Rydym yn cydweithredu â chwmnïau a ffurfiau celf eraill – gan rannu dawns mewn mannau newydd a gyda chynulleidfaoedd newydd.
- Rydym yn rhannu adnoddau, gwybodaeth a lleoliad ag artistiaid, sectorau a busnesau eraill.
- Rydym yn eirioli dros ddawns fel ffurf gelf ym mhle bynnag yr awn.

# Support Us

As a charity, we rely on the generous support of our audiences to help us bring the joy of dance to those who will benefit most.


By Supporting NDCWales you can help make amazing things happen. From bringing new worlds to life on stage, helping improve people's mobility and wellbeing, to nurturing the creativity of young people. By becoming a Lifft supporter, you can play an important part in our story, and join a community of people who believe in the transformational power of dance.

**Become part of our Lifft supporter scheme for as little as £2.50 a month**

Or visit ndcwales.co.uk/lifft









# Cefnogwch ni

## Gan ein bod ni'n elusen, rydym yn dibynnu ar gymorth hael ein cynulleidfaoedd i'n helpu ni ddod â llawenydd dawns i'r rhai fydd yn elwa fwyaf ohono.

Drwy gefnogi CDCCymru, gallwch helpu i wneud i bethau rhyfeddol ddigwydd. O ddod â bydoedd newydd yn fyw ar y llwyfan i helpu i wella symudedd a llesiant pobl, a meithrin dawn greadigol pobl ifanc. Drwy gefnogi Lifft, gallwch chwarae rhan bwysig yn ein stori ac ymuno â chymuned o bobl sy'n credu yng ngrym dawns i newid bywydau.



**Dewch yn rhan o'n cynllun cefnogwyr Lifft am gyn lleied â £2.50 y mis**

Neu ewch i ndcwales.co.uk/lifft

# Follow our story

Join us on social media @ndcwales or join our email mailing list for updates direct from our studio to your inbox.

Scan here to join the mailing list.

# Dilynwch ein stori

Ymunwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol @ ndcwales neu ymunwch â'n rhestr e-bostio am ddiweddariadau uniongyrchol o'n stiwdio i'ch mewnflwch.

Sganiwch yma i ymuno â'r rhestr bostio.

# Let us know what you thought

Scan here to fill out our post-show survey or visit

Don't have a QR scanner – no problem, visit https://linktr.ee/ndcwtour

# Rhowch eich barn i ni

Sganiwch yma i gwblhau ein harolwg yn dilyn sioe neu eich ymweliad

Os nad oes gennych sganiwr QR – dim problem, ewch i https://linktr.ee/ndcwtour

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Cymru Wales

Colwinston Charitable Trust

Foyle Foundation

Theatre Green Book making theatre sustainable Basic 2025

**Photography | ffotograffiaeth:** Kirsten McTernan, Studio Cano, Jonathan Dunn, Elywel Photography , Albert Pons **Dylunio | Design:** Hoffi.com